



Ein cyf/Our ref: KS/220/20

Y Gwir Anrhydeddus Grant Shapps AS  
Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth

[TransportSecretary@dft.gov.uk](mailto:TransportSecretary@dft.gov.uk)

4 Mehefin 2020

Annwyl Grant,

Ysgrifennais atoch ar 2 Mawrth ynglŷn â chronfa Restoring Your Railways Llywodraeth y DU a buddsoddi yn rhwydwaith rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Diolch am eich ateb ar 6 Mai.

Rwyf bellach yn ysgrifennu atoch yn dilyn adroddiad a gynhaliwyd ar fy rhan gan Drafnidiaeth Cymru, i ofyn yn ffurfiol am fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU i ddarparu pedair gorsaf drenau newydd ar draws y rhanbarthau yng Nghymru erbyn dechrau 2024. Dyma'r gorsafoedd sydd ar fy rhestr fer ar gyfer datblygiadau posibl o dan Gronfa Gorsafoedd Newydd 3. Nid wyf wedi eu rhoi mewn unrhyw drefn benodol, am fod pob un ohonynt o'r flaenoriaeth uchaf, ac maent yn cynnwys: Parcffordd Glannau Dyfrdwy – ar Linell y Gororau; Carno, ar Brif Linell y Cambrian yn y Canolbarth, Sanclêr, ar Brif Linell y Great Western yn y Gorllewin; a Melin Trelái ar Linell y Ddinas yng Nghaerdydd yn y De.

Nid wyf wedi eu trefnu yn ôl blaenoriaeth, am fod adroddiad Trafnidiaeth Cymru yn dangos bod achos cryf dros ddatblygu pob un o'r pedair gorsaf fel rhan o raglen integredig i wella mynediad at y rhwydwaith rheilffyrdd ledled Cymru. Bydd y pecyn hwn yn gwneud cyfraniad mawr at y gwaith o wella cysylltiadau rheilffyrdd, yn rhoi hwb i'n hadferiad yn dilyn COVID-19, ac yn datblygu ein trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer y dyfodol. Bydd agor y gorsafoedd newydd hyn yn allweddol er mwyn Adeiladu Nôl yn Well.

Yn achos Parcffordd Glannau Dyfrdwy a Melin Trelái, bydd y ddwy yn elfennau allweddol o'u gwahanol ddatblygiadau Metro, ac yn gwneud cyfraniadau mawr at gysylltiadau trefol, rhagor o swyddi/twf economaidd a llai o geir yn cael eu defnyddio. Byddai'r gorsafoedd newydd yn Sanclêr a Charno yn ategu cyflogaeth gref a thwf economaidd drwy wella cysylltiadau rhanbarthol. Maent yn cael eu cefnogi'n helaeth gan y gymuned a thrydydd

partïon (cynghorau cymuned, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol) o fewn cymunedau gwledig, lle mae'r drafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, sydd wedi cael eu hanwybyddu yn y gorffennol, yn enwedig ers cau'r gorsafoedd a fu yn y cymunedau hyn, a ffatri Enwog Laura Ashley yng Ngharno. Bydd Gorsaf Carno yn gyfagos â chanolfan gymunedol/amgueddfa newydd ar safle'r ffatri, a bydd synergedd gwych rhwng y ddau ddatblygiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae pob un yn ddichonadwy ac yn weithredol hyfyw, a byddant yn cynnig gwasanaethau rheolaidd i ganolfannau cenedlaethol. Ar gyfer Carno bydd angen i Network Rail gyflymu'r gwaith o uwchraddio'r groesfan gyfagos i osgoi risg uwch.

Mae hanes Trafnidiaeth Cymru o gyflawni yn ystod dwy rownd flaenorol y Gronfa Gorsafoedd Newydd heb ei ail. Rwyf wedi gofyn i Drafnidiaeth Cymru gyflwyno ffurflenni cais ar gyfer y Gronfa yn uniongyrchol i'ch tîm ar fy rhan. Am fod Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am wella seilwaith y rheilffyrdd, ac am y cyllid cysylltiedig, yn fy llythyr ar 2 Mawrth gofynnais am ddyraniad teg o'r cyllid Restoring Your Railways ar gyfer gwelliannau yng Nghymru, i ddatblygu rhaglen gwella'r rheilffyrdd i gyflawni ein blaenoriaethau a blaenoriaethau ein partneriaid. Pe baech yn ymrwymo i dalu costau llawn ein rhaglen o adeiladu gorsafoedd, byddai hynny'n gam cyntaf cadarnhaol yn y gwaith o sicrhau manteision trawsnewidiol i'r cymunedau hynny.

Fel yr amlinellais yn fy llythyr ar 2 Mawrth, mae gennyf flaenoriaethau eraill ar gyfer buddsoddi yn y rheilffyrdd, gan gynnwys gorsafoedd newydd ym Maesglas a Magwyr, wedi eu cefnogi gan Aelodau Seneddol yng Nghymru a San Steffan, a byddwn yn hapus iawn i helpu gydag unrhyw broses o werthuso'r achosion hyn.

Roedd y llythyr hefyd yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer ailagor rheilffyrdd, ac yn ddiweddar gwnaeth fy swyddogion gyflwyno datganiad o ddiddordeb i'r Gronfa Syniadau Newydd, mewn perthynas ag adfer gwasanaethau i deithwyr ar y llinell rhwng Gaerwen ac Amlwch ar Ynys Môn, a datganiad o ddiddordeb i'r gronfa Accelerating Existing Proposals mewn perthynas ag adfer y llinell a gwasanaethau i Abertyleri yn Ne Cymru. Nid yw fy mlaenoriaethau wedi eu cyfyngu i'r achosion hyn, fel y byddwch yn cofio o'm hatodiad i fy llythyr ar 2 Mawrth, a byddwn yn parhau i ddadlau'n gryf dros bob achos, gan gynnwys ailagor y llinellau rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin a rhwng Bangor a Chaernarfon.

Byddwn yn hapus iawn i drafod y materion pwysig hyn â chi, a chanlyniadau Adolygiad Williams o'r Rheilffyrdd sydd yn yr arfaeth. Rwyf hefyd yn fodlon i'm swyddogion a Thrafnidiaeth Cymru gynnal trafodaethau manwl â'ch swyddogion chi ynghylch unrhyw rai o'r cynlluniau hyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Aelodau'r Senedd, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Aelodau Seneddol eraill Cymru a'r gororau yr anfonais gopi o'm llythyr ar 2 Mawrth atynt.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Minister for Economy, Transport and North Wales